

# cta

community transport  
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



## Cludiant Cymunedol Castell-nedd Port Talbot

### Prosiect Cydgysylltu

Mae Cludiant Cymunedol Castell-nedd Port Talbot (CCCNPT) yn darparu cludiant hygyrch i bobl sy'n agored i niwed yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan sicrhau bod unigolion a grwpiau cymunedol yn gallu mentro allan, cyrraedd gwasanaethau hanfodol a chyfluoedd cymdeithasol a pharhau'n annibynnol.

Ym mis Medi 2019, daeth Canolfan Gymunedol Gellifedw a Chymdeithas Henoed Gellifedw, a leolir yn sir gyfagos Abertawe, i gysylltiad â CCCNPT gan eu bod yn bryderus iawn bod eu cymuned yn colli ei gwasanaeth bws cyhoeddus lleol. Byddai colli'r gwasanaeth hwn yn cael effaith andwyol ar y bobl a oedd yn dibynnu arno i gyrraedd gwasanaethau hanfodol a chyfluoedd cymdeithasol ym mhentref cyfagos Sgiwen a chanol tref Castell-nedd. Byddai colli'r gwasanaeth yn cael fwyaf o effaith ar bobl hŷn, pobl anabl a rhai sy'n agored i niwed gan ei bod yn llai tebygol bod ganddynt gar a byddent yn sicr yn dioddef i raddau gwaeth gydag unigrwydd, arwahanrwydd a cholli annibyniaeth.

Yn dilyn cyfarfod gyda'r holl randdeiliaid yn yr ardal, gan gynnwys 85 o breswylwyr pryderus sy'n defnyddio'r gwasanaeth bws presennol yn rheolaidd, penderfynwyd y byddai CCCNPT yn ymestyn ei wasanaeth bws mini hygyrch 'Townrider' Castell-nedd i gynnwys preswylwyr yn y cymunedau yr effeithir arnynt yng Ngellifedw, Glais a Lon Las a cheisio cyllid gyda chymorth Tîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru CTA i dalu costau rhedeg ac ymestyn y gwasanaeth *Townrider* er budd pobl leol sy'n byw yn y cymunedau hyn.

Byddai'r gwasanaeth *Townrider* yn gwneud mwy na llenwi'r bwlch a oedd yn cael ei greu wrth ddileu'r gwasanaeth bws cyhoeddus - byddai'n gwella'r gwasanaeth blaenorol, gan fod y *Townrider* yn wasanaeth hygyrch 'o ddrws i ddrws' a fyddai dim angen i bobl sy'n cael anawsterau symud gerdded yn ôl ac ymlaen o'r arhosfan bysiau - rhywbeth sy'n anhawster difrifol i lawer o bobl.

Ym mis Ionawr 2020, yn dilyn arweiniad a chyngor gan dîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru CTA i ganfod cyllidwr addas a chynorthwyo gyda'r gwaith o ysgrifennu cais am gyllid i Gronfa'r Loteri Fawr, roedd CCCNPT wrth eu bodd o glywed eu bod wedi llwyddo i gael buddsoddiad o £10,000 a fyddai'n galluogi'r *Townrider* i ddechrau ar y teithiau.

Mae Prosiect Cydgysylltu wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau defnyddwyr y gwasanaeth ac mae'n galluogi llawer o bobl i gyrraedd gwasanaethau hanfodol e.e. gwasanaethau bancio dros y cownter i helpu pobl i reoli eu harian a siopau a chyfleusterau eraill. Mae'r prosiect hefyd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les unigolion, trwy greu a chryfhau cyfeillgarwch rhwng pobl ar y bws mini, sy'n helpu i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella rhyngweithio a chysylltiadau cymdeithasol.

“Mae prosiect Cydgysylltu yn bwysig i CCCNPT”, meddai'r Rheolwr Cyffredinol Karen Long, “oherwydd ei fod yn cyd-fynd â chenhadaeth y mudiad trwy sicrhau bod gan bobl leol fynediad cyfartal i gludiant a'u bod yn gallu cyrraedd gwasanaethau a chyfleoedd hanfodol. Os gallwn ni helpu pobl mewn cymunedau lleol, fe wnawn ni hynny - dyna fu ein hethos o'r dechrau, ac rydym yn hapus i ymestyn ein cefnogaeth i bobl yng Ngellifedw, Glais a Lon Las i'w helpu i gyrraedd gwasanaethau yng Nghastell-nedd a chadw cysylltiad”.

---

## Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

**Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn [ctauk.org/cciw-cymraeg](http://ctauk.org/cciw-cymraeg).**

